



Dinas a Sir Abertawe

## Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Cyfarfod Aml-Leoliad - Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas / MS Teams

Dydd Mawrth, 31 Mai 2022 am 2.00 pm

### Yn Bresennol:

#### Y Cyngorydd(wyr)

T J Hennegan  
J W Jones  
K M Roberts

#### Y Cyngorydd(wyr)

P R Hood-Williams  
M W Locke  
L V Walton

#### Y Cyngorydd(wyr)

A J Jeffery  
S Pritchard  
T M White

#### Aelod Lleyg

Paula O'Connor  
Julie Davies

Gordon Anderson  
Philip Sharman

#### Swyddog(ion)

Jeremy Parkhouse  
Simon Cockings  
Ben Smith  
Tracey Meredith  
Adam Hill  
Nick Davies

Swyddog Gwasanaethau Democrataidd  
Prif Archwiliwr  
Cyfarwyddwr Cyllid / Swyddog Adran 151  
Prif Swyddog Cyfreithiol  
Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Adnoddau  
Archwiliwr

#### Ymddiheuriadau am absenoldeb

M B Lewis

---

### 1 Ethol cadeirydd ar gyfer blwyddyn ddinesig 2022-2023.

**Penderfynwyd** ethol Paula O'Connor (Aelod Lleyg) yn Gadeirydd ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2022-2023.

(Bu Paula O'Connor (Cadeirydd) yn llywyddu)

### 2 Ethol is-gadeirydd ar gyfer blwyddyn ddinesig 2022-2023.

**Penderfynwyd** ethol y Cyngorydd P R Hood-Williams yn Is-Gadeirydd ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2022-2023.

### 3 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol: -

Datganodd y Cynghorydd T M White gysylltiad personol â chofnod rhif 5 – Adroddiad Blynyddol Archwiliad Mewnol 2021/22.

Datganodd Adam Hill gysylltiad personol â chofnod rhif 7 - Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft 2021/22.

#### **4 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel cofnod cywir.

#### **5 Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2021/22.**

Cyflwynodd Simon Cockings, Prif Archwilydd, adroddiad a oedd yn crynhoi'r gwaith a gwblhawyd gan Archwilio Mewnol 2021/22 ac a oedd yn cynnwys barn y Prif Archwilydd ar gyfer 2021/22, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn.

Darparwyd Cynllun Archwilio Mewnol 2021/22 hyd at 31 Mawrth 2022 yn Atodiad 1. Amlinellwyd rhestr gyflawn o bob archwiliad a gwblhawyd yn ystod 2021-22, ynghyd â lefel y sicrwydd a nifer yr argymhellion a wnaed ac a dderbyniwyd yn Atodiad 2 a manylwyd ar ddangosyddion perfformiad 2021-22 yn Atodiad 3.

Darparwyd manylion y canlynol: -

- Adolygiad o 2021/22;
- Gwaith dilynol a gwblhawyd;
- Dangosyddion perfformiad;
- Rhaglen sicrhau ansawdd a gwella a datganiad o gydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS);
- Datganiad o annibyniaeth sefydliadol;
- Barn y Prif Archwilydd am y gwaith a gwblhawyd yn 2021-22.

Dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi cyfarfod â'r Prif Swyddog Cyllid/Adran 151 a'r Prif Archwilydd ynghylch canllawiau CIPFA a'i bod yn fodlon bod barn y Prif Archwilydd yn adlewyrchu'r canllawiau.

Mynegodd y Cadeirydd a'r Pwyllgor eu diolch i'r Prif Archwilydd a'r Tîm Archwilio Mewnol am eu gwaith sylweddol dan amgylchiadau anodd a'r gwelliannau pwysig a wnaed o'r flwyddyn flaenorol.

Trafododd y Pwyllgor y canlynol: -

- Arwyddocâd archwiliadau sylfaenol o'u cymharu ag archwiliadau eraill;
- Y lefelau uchel o sicrwydd a roddwyd;
- Y ffaith y llwyddwyd i gwblhau 84% o'r cynllun o'i gymharu â'r targed o 70%;
- Effaith y sefyllfa staff well mewn Archwilio Mewnol;
- Cydnabod effaith pandemig COVID-19;

- Sut nad oedd gwaith Archwilio Mewnol wedi'i beryglu mewn unrhyw ffordd oherwydd y pandemig a pham roedd unrhyw waith na ellid ei gwblhau wedi'i ohirio tan y flwyddyn ganlynol;
- Y canlyniad cadarnhaol a gafwyd sef na dderbyniodd unrhyw archwiliad sicrwydd cyfyngedig;
- Y posibilrwydd o beidio â chyfrif dangosyddion perfformiad sydd 'ar waith' yn ffigurau'r flwyddyn gyfredol;
- Y gorgyffwrdd anochel rhwng y gwaith rhwng blynyddoedd ariannol;
- Parhau ag adolygiadau gan gymheiriaid yn y dyfodol a'r system gylchdroadol sy'n cael ei defnyddio gan gynghorau yng Nghymru;
- Cydnabod barn yr Archwilydd Mewnol.

**Penderfynwyd: -**

- 1) Nodi'r gwaith a wnaed gan y Tîm Archwilio Mewnol yn 2021/22;
- 2) Nodi'r cynnydd a wnaed yn erbyn y Cynllun Blynyddol Archwilio Mewnol;
- 3) Nodi barn y Prif Archwilydd.

**6 Adroddiad Blynyddol Drafft y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2021/22.**

Cyflwynodd y Cadeirydd Adroddiad Blynyddol Drafft y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer Blwyddyn ddinesig 2021/22 'er gwybodaeth' i'r Pwyllgor ei adolygu a gwneud sylwadau arno cyn cyflwyno'r adroddiad terfynol i'r cyngor.

Diolchodd Aelodau'r Pwyllgor, y Prif Archwilydd, Archwilio Mewnol, Swyddfa Archwilio Cymru a'r Cynghorydd L V Walton (cynrychiolydd y Pwyllgor yn y Grŵp Llywodraethu) am eu gwaith a'r cynnydd a wnaed gan y Pwyllgor.

Trafododd/amlinellodd y Pwyllgor y canlynol: -

- Diwygio cyfeiriadau at lywodraethu lleol i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021;
- Cynnwys rhai eitemau sy'n gorgyffwrdd blynyddoedd dinesig, yn amodol ar eu pwysigrwydd/heffaith;
- Diwygio 202/21 i 2021/22 yn y rhestr gynnwys;
- Sut y rhoddodd yr Adroddiad Orlhain Camau a'r Cynllun Gwaith sicrwydd i'r Pwyllgor.

Nodwyd gwelliannau a sylwadau'r Pwyllgor. Byddai Adroddiad Blynyddol Drafft y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2021/22 yn cael ei anfon at y cyngor i'w gymeradwyo.

**7 Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft 2021/22.**

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Weithredwr, Adam Hill, Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol (DLIB) 2021/22 drafft a oedd yn rhoi cyfle i'r pwyllgor gyfrannu at yr adolygiad blynyddol o lywodraethu.

Cyfeiriodd yr adroddiad at y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a chanllawiau fframwaith diwygiedig y Gymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol ar y Côt Llywodraethu Corfforaethol, a oedd yn manylu ar y 7 egwyddor a ddarparwyd o fewn y fframwaith. Amlinellwyd hefyd fanylion sut roedd yr awdurdod wedi cydymffurfio â'r fframwaith, ynghyd â materion arwyddocaol a wynebwyd yn ystod y flwyddyn.

Darparwyd DLIB 2021/22 drafft yn Atodiad A a byddai'r fersiwn derfynol yn cael ei hadrodd wrth y cyngor cyn iddo gael ei lofnodi gan yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr a'i gyhoeddi gyda Datganiad Cyfrifon archwiliedig 2021/22.

Trafododd y Pwyllgor y canlynol: -

- Diwygio Llywodraethu Lleol i Lywodraeth Leol ym mharagraff 9.5 yr adroddiad;
- Ystyried dileu dyblygu yn yr adroddiad yn y dyfodol i'w wneud yn gryno, yn fwy cynnil ac i ddarparu mwy o effaith;
- Dylid ystyried y defnydd o iaith amhersonol yn y dyfodol;
- Pwysigrwyd cydnabod materion o bwys a sicrhau eu bod yn cael eu hamlygu, hyd yn oed pe baent yn cael eu dyblygu;
- Cydnabod mai'r terfyn ar gyfer cyflwyno i Archwilio Cymru oedd 31 Mai 2022;
- Ystyried diwygio'r camau gweithredu sydd i'w cymryd o ran diffyg adnoddau, gallu a gwydnwch y gweithlu a dibynnu ar ewyllys da staff.

**Penderfynwyd** y dylid cytuno ar y Datganiad Llywodraethu Blyneddol ac, yn amodol ar ychwanegu'r diwygiadau a amlygwyd gan y pwyllgor, ei anfon at y cyngor i'w gymeradwyo fel rhan o'r Datganiad Cyfrifon.

## **8 Ethol Cynrychiolydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar y Grŵp Llywodraethu.**

Cyflwynodd Jeremy Parkhouse, Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd, adroddiad a oedd yn ceisio penodi cynrychiolydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar y Grŵp Llywodraethu tan fis Mai 2023. Darparwyd cylch gorchwyl y Grŵp Llywodraethu yn Atodiad 1.

Cynigiwyd y Cynghorydd L V Walton gan y Cynghorydd T M White a'i eilio gan y Cynghorydd P R Hood-Williams.

**Penderfynwyd:** -

- 1) Ethol y Cynghorydd L V Walton yn gynrychiolydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar y Grŵp Llywodraethu.
- 2) Bydd y penodiad tan ddiwedd y flwyddyn ddinesig bresennol ym mis Mai 2023.

## **9 Adroddiad Orlhain Camau Gweithredu'r Pwyllgor Archwilio.**

Cyflwynwyd Adroddiad Orlhain Camau Gweithredu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 'er gwybodaeth'.

Tynnodd Phil Sharman sylw at y ffaith bod angen diweddarau cylch gorchwyl y Pwyllgor, fel y trafodwyd yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Ebrill 2022, a oedd yn cynnwys cyfeiriad at yr Aelodau Lleyg ychwanegol.

Dywedodd y Prif Swyddog Cyfreithiol y byddai'r diwygiadau gofynnol yn cael eu gwneud ac y byddai cyfansoddiad y cyngor yn cael ei ddiweddarau maes o law.

## **10 Cynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio 2022/23.**

Adroddwyd am Gynllun Gwaith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2022/2023 'er gwybodaeth'.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Pwyllgor anfon unrhyw eitemau posib i'w trafod i'r Gwasanaethau Democrataidd.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.18 pm

**Cadeirydd**